OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 429 (Cy. 71)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain yng Nghyffordd 20 (Bae Colwyn/Llandrillo-yn-Rhos), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *20 Chwefror 2012*

*Yn dod i rym* *1 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain yng Nghyffordd 20 (Bae Colwyn/Llandrillo-yn-Rhos), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 09:30 o'r gloch ar 1 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” *(“the length of the trunk road”)* yw'r darn o’r gerbytffordd tua'r dwyrain, ar Gefnffordd yr A55 yng Nghyffordd 20 (Bae Colwyn/Llandrillo-yn-Rhos) ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o bwynt 2200 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont Cyffordd 20 hyd at ganolbwynt y drosbont honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, ar y darn o’r gefnffordd.

**5.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3 a 4 ond yn gymwys yn ystod cyfnodau pan fo cymhwysiad y cyfyngiad a'r gwaharddiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny'n cael ei ddangos gan arwyddion traffig, ac i'r graddau y’i dangosir.

**6.** Bydd hyd y Gorchymyn hwn yn ddim mwy na 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 20 Chwefror 2012

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.